# Mwy o Wobrau i Mencap Môn?

Sefydlwyd Mencap Môn 60 mlynedd yn ôl gan grŵp o rieni a oedd yn benderfynol o wella bywydau pobl ag Anableddau Dysgu ar yr Ynys. Yn 2015, sefydlwyd Hwb Mencap Môn, ac yn ddiweddarach cafodd fudd o adnewyddiad llawn yn 2022 wrth iddynt lansio Ffiws gyda Argraffu 3D, Dylunio a Thechnoleg, yn ogystal â chefnogi llwybrau i waith gwirfoddol a chyflogaeth ar gyfer eu 98 aelod anabl.

## Rhaglenni Mencap Môn:

Mae eu rhaglenni'n canolbwyntio'n llwyr ar iechyd a llesiant, gyda rhaglen eang o weithgareddau, sy'n cynnwys:

- Peldroed
- Drama
- Beicio
- Nofio
- Celf a Chrefft
- Noson 'Pool'
- Bingo
- Quiz
- Diwrnodau preswyl i ffwrdd
- Crocket
- Disgos
- Dawnsio neuadd (Ballroom)
- Nosweithiau clwb nos
- Gwaith caffi – Llyfrgell Caergybi



Llun o Mencap Môn yn derbyn offer gan DSW fel enillwyr Arolwg Ciplun Cenedlaethol Mawrth 2026. Byddant hefyd yn cael cwrs Addysg a Hyfforddiant Lefel 3 UK DIT.

***Strictly Dawnsio Gogledd:***

Yn ogystal â darparu rhaglen chwaraeon sefydledig ers dros 25 mlynedd, mae Mencap Môn wedi bod yn gyfranogwyr rheolaidd yng nghystadleuaeth Strictly Cymru dros y blynyddoedd. Yn fwy diweddar, maent wedi bod yn bartner cydweithredol gyda Llwybrau Llesiant yng Ngwynedd, Conwy Connect a STAND i gynnal digwyddiad Gogledd-orllewin Cymru yn Venue Cymru. Cyflwynwyd digwyddiad flwyddyn yma gan Colin Jackson ac a gafodd ei ddal yn **y fideo yma:** *Dawnsio Gogledd Cymru Subtitled.mp4 - Google Drive*

**Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at ffurfio rhwydwaith Dawns Gogledd Cymru, gan ddechrau'n fach dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae dros 300 o bobl ag anableddau dysgu yn mynychu Venue Cymru, gan gael effaith gadarnhaol a dwys ar draws y rhanbarth…**

## Prosiectau Ehangach:

Mae Mencap Môn hefyd wedi ymdrechu i adeiladu perthnasau gyda Ysgol Arbennig Canolfan Y Bont yn Llangefni gan ddarparu rhaglen drosiannol ar gyfer pobl ifanc anabl 11-19 i drosglwyddo i fod yn aelodau yn y dyfodol pan fyddant yn gadael addysg. Maent hefyd yn cysylltu â nifer o wasanaethau dydd, cydweithio gyda Chlwb Pêl-droed Llangefni, Môn Actif ac â'r gymuned ehangach.

**Prosiect a Chyllid Melin y Graig:**

Ar ôl ymgynghoriad Melin Y Graig mae arian wedi cael ei dderbyn gan Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gynnal astudiaeth dichonoldeb i bennu'r diben gorau i aelodau Mencap Môn sy'n cynnwys datblygu llety gwyliau eu hunain ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, creu cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, er bod ystyriaethau eraill hefyd.

**Effaith ar Gyfranogwyr / Gwasanaethu'r Gymuned Ehangach:**

- Mae'r rhaglenni helaeth wedi darparu profiadau newydd a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gan alluogi pobl i wneud ffrindiau newydd yn lleol ac ar draws y rhanbarth
- Yn darparu amgylcheddau diogel a chynhwysol, gan ddatblygu sgiliau cyflogaeth a chyflawni nodau newydd
- Dawnsio ac ystod eang o chwaraeon wedi gwella gydbwysedd, ystum a symudedd trwy ymarfer corff
- Lleihad mewn gorbryder a chynnydd mewn hyder ymhlith aelodau
- Mae Croquet, Ffiws a Gwnïo hefyd ar agor i pobl heb anabledd, yn enwedig pobl sydd wedi'u hynysu, ac wedi cael eu croesawu i'r hwb, gan ddarparu allfa werthfawr yn yr ardal

Ychwanegodd Marcus Politis, Uwch Swyddog Partneriaeth Ranbarthol DSW *"Mae gwaith rhagorol Mencap Môn eisioes wedi arwain i Dot Gallagher ennill Wobr Cyflawniad Oes DSW, ac eleni mae Mencap Môn ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru yng Nghaerdydd ar 2 Gorffennaf 2026. Hoffwn ddymuno'r gorau iddynt a diolch am eu hymrwymiad diflino i bobl ag anableddau dysgu yn Ynys Môn a ledled Gogledd Cymru".*

Ychwanegodd Helen Williams, eu Cynlluniwr Canolbwyntio ar y Person *"Rydym wedi ymrwymo i helpu pobl fod yn annibynnol, i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dysgu sgiliau, cwrdd â ffrindiau, cael cyflogaeth a chyrraedd unrhyw nodau a breuddwydion sydd ganddynt mewn bywyd".*

Dywedodd Jackie Lewis, Swyddog Datblygu Mencap Môn *"Mae canfyddiad bod pobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth yn brin o sgiliau. O ystyried hyn, un o'n hamcanion yw darparu rhaglenni i roi cyfleoedd iddynt fyw bywyd gwell, torri lawr rhwystrau canfyddedig a gwneud Ynys Môn y lle gorau i bobl ag anableddau dysgu fyw."*

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Marcus Politis, Uwch Swyddog Partneriaeth Ranbarthol DSW – Gogledd Cymru ar: marcus.politis@disabilitysportwales.com